

PARTIÖN STRYD - DATHLU

Os ydych chi'n bwriadu trefnu parti stryd, yna mae'n rhaid i chi gael caniatâd gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod modd cau'r stryd mewn modd gyfreithlon a diogel.

Bydd angen i chi lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais amgaedig i'r Cyngor cyn gynted â phosib er mwyn caniatáu digon o amser i'ch cais gael ei asesu a'i brosesu os yw'n briodol.

Strydoedd addas ar gyfer parti stryd a fydd yn cael eu hystyried yw strydoedd preswyl tawel. Enghraifft o strydoedd addas nad oes modd eu hystyried yw priffyrdd prysur, neu'r rheiny sydd â llwybr bws.

Os ydych chi'n ystyried cynnal parti stryd, sicrhewch fod pob preswlydd y gall fod angen mynediad i gerbydau ar gyfer y stryd dan sylw yn cytuno â'r cais.

Os oes eisiau rhagor o wybodaeth arnoch chi, ffoniwch y Garfan Traffig ar 01443 494826.

Fel arall, efallai hoffech chi ddefnyddio lleoliadau oddi ar y stryd fel tramwyfeydd, gerddi, parciau, Canolfannau Cymunedau neu ysgolion. Bydd hyn yn osgoi unrhyw wrthdaro gyda defnyddwyr eraill y briffordd. Yn ogystal â hyn, os oes cyfleusterau dan do ar gael yn y lleoliad, fydd y parti ddim yn cael ei effeithio gan dywydd gwael. I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio cyfleusterau cyhoeddus, cysylltwch â'r adrannau canlynol:

Ardan Parciau a Hamdden

Swyddog Archebu - Parciau, Ffôn: [01443 562202](tel:01443562202)

Canolfannau Cymunedau

Rheolwr Cyfleusterau - Canolfannau Cymunedau, Ffôn: [01443 688133](tel:01443688133)

Ysgolion

Bydd angen i chi siarad â Phennaeth yr ysgol benodol yr hoffech chi ei defnyddio

PARTIÖN STRYD

AMODAU CYFFREDINOL

Lle bo'r Awdurdod wedi rhoi caniatâd ar gyfer parti stryd, bydd yr amodau cyffredinol canlynol yn berthnasol ynghyd ag unrhyw amodau penodol mewn perthynas â stryd benodol: -

1. Rhaid cadw mynediad i gerddwyr at y stryd bob amser.
2. Rhaid cadw mynediad i holl "Gerbydau'r Gwasanaethau Brys" ar bob adeg, hynny yw, os ydych chi'n defnyddio unrhyw rwystrau corfforol, rhaid i chi eu hadeiladu fel bod modd eu symud nhw yn syth os oes angen.
3. Os oes addurniadau neu faneri yn y stryd, dylech chi sicrhau eu bod nhw ddim yn achosi rhwystr i "Gerbydau'r Gwasanaethau Brys", a rhaid bod modd eu symud nhw yn syth.
4. Does dim hawl rhoi polion yn arwyneb yr heol na'r palmant, oherwydd gallai hyn achosi difrod.
5. Does dim hawl i chi hongian atodion o'r goleuadau stryd. Dylai fod modd symud addurniadau'n sydd ger goleuadau stryd.
6. Does dim hawl defnyddio ceblau trydan ar y briffordd, neu throsti.
7. Bydd copi o'r 'HYSBYSIAD' i gau'r ffordd am gyfnod dros dro yn cael ei anfon atoch chi maes o law. Rhaid arddangos yr hysbysiad mewn lle amlwg ar naill ben y rhan o'r ffordd fydd ar gau, tan fod y ffordd yn ail-agor.
8. Rhaid i chi osod arwyddion ar naill ben y stryd sy'n dangos yn glir i yrwyr y cyfnod y bydd y ffordd ar gau, er enghraifft "Ffordd Ar Gau 11am tan 7pm". Mae hawl gennych chi wneud y rhain â llaw, ond mae'n rhaid bod modd eu darllen yn hawdd.
9. Does dim hawl cynnal tân neu farbeciw o fewn terfynau'r priffyrdd. Mae hyn yn cynnwys pob llwybr cerdded, llwybr troed, ymyl, llain ganol a chylchfannau.
10. Rhaid symud pob bwrdd, trestl, cadair, rhwystr ac ati, yn syth ar ôl yr achlysur, yn ogystal â chlirio'r stryd rhag unrhyw sbwriel a llanastr.
11. Rhaid i drefnydd yr achlysur roi ystyriaeth ddyledus i'r holl drigolion a darparu ar gyfer diogelwch a chysur yr henoed, pobl anabl a phlant ifainc iawn.
12. Bydd trefnwyr yr achlysur yn indemnio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn erbyn unrhyw ddamwain neu anaf sy'n codi o ganlyniad i'r achlysur.
13. Rhaid i chi gynnal mynediad i gerbydau ar gyfer tramwyfeydd preifat, garejys ac ardaloedd parcio oddi ar y stryd ar bob adeg oni bai eich bod chi wedi cytuno â'r sawl sy'n cael eu heffeithio gan yr achlysur.

CAIS AM ORCHYMYN TRAFFIG DROS DRO**Manylion yr ymgeisydd:****Enw****Cyfeiriad****Cod post****Rhif ffôn yn ystod y dydd:****Cyfeiriad e-bost****Lleoliad sydd angen:****Stryd****Tref****Dyddiad y parti****Amser
Dechrau/Gorffen:****e.e. - 10am tan 10pm**

Trwy lofnodi hyn, rwy'n cytuno indennio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn erbyn pob hawliad, cost, damwain neu iawndal sy'n deillio o, neu sydd wedi'i gysylltu â'r achlysur uchod o fewn neu gerllaw cyfyngiadau cynaliadwy'r priffyrdd sirol.

NODYN: Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn rhoi cyngor cryf bod ymgeiswyr yn meddu ar yswiriant atebolrwydd trydydd parti, sy'n ddigonol i gwmpasu'r holl rwymedigaethau a all godi o'r parti stryd.

ENW A CHYFEIRIAD YR UNIGOLYN/UNIGOLION SY'N GYFRIFOL AM INDEMNIO'R CYNGOR BWRDEISTREF SIROL AR GYFER Y PARTI STRYD.**Enw****Cyfeiriad****Llenwch y ffurflen a'i hanfon at:**

Materion Rheoli Traffig
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Tŷ Sardis, Sardis Road, PONTYPRIDD, CF37 1DU

neu anfon e-bost i: gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk

